***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1707 (Cy.169)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *7 Gorffennaf 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Sefydliadau Addysgol Penodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Sefydliadau addysgol penodedig at ddibenion penodol o fewn Deddf Tai 2004

**2.** Mae sefydliad addysgol yn un penodedig at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 os yw—

(a) wedi ei restru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn; a

(b) wedi ei restru fel y sefydliad addysgol perthnasol o ran adeilad—

(i) sydd wedi ei restru yn yr Atodlen i God Ymarfer Prifysgolion y DU/Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon y Prifysgolion ar gyfer Rheoli Cartrefi Myfyrwyr (Cymru) dyddiedig 16 Mai 2006(**2**); neu

(ii) wedi ei restru yn ail golofn Atodlen 1 i God Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol ar gyfer Datblygiadau Mwy ar gyfer Llety i Fyfyrwyr a Reolir ac sydd dan Reolaeth Sefydliadau Addysgol (Cynru) dyddiedig 16 Mai 2006(**3**).

---

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraff 4(2) o Atodlen 14 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" ("*awdurdod cenedlaethol priodol*") yn adran 261 (1) o'r Ddeddf.

(**2**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) ( Cymru) 2006 (O.S. 2006/1709 (W.171)).

(**3**) Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 233 o'r Ddeddf. *Gweler* Gorchymyn Tai (Cymeradwyo Codau Ymarfer Rheoli) (Llety Myfyrwyr) (Cymru) Gorchymyn 2006 (O.S. 2006/1709 (Cy.171)).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

27 Mehefin 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## ATODLEN

Rheoliad 2(a)

Sefydliadau addysgol penodedig at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004

Prifysgol Caerdydd;

Prifysgol Morgannwg;

Athrofa Addysg Uwch Abertawe;

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd;

Prifysgol Cymru, Aberystwyth;

Prifysgol Cymru, Bangor;

Coleg y Drindod Caerfyrddin;

Prifysgol Cymru, Casnewydd;

Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan;

Prifysgol Cymru, Abertawe.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae atodlen 14 i Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn disgrifio tai nad ydynt yn dai amlfeddiannaeth ("HMOs") at ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1). Mae adran 254 o'r Ddeddf yn diffinio HMOs.

Mae paragraff 4 o Atodlen 14 i'r Ddeddf yn darparu nad yw adeilad yn HMO at ddibenion y Ddeddf (ac eithrio Rhan 1) os yw'n adeilad a feddiennir yn unig neu yn bennaf gan bersonau sy'n ei feddiannu at ddibenion dilyn cwrs amser llawn o addysg bellach mewn sefydliad penodedig neu mewn sefydliad o fath penodedig, a phan mai'r person sy'n ei reoli neu sydd â rheolaeth drosto yw'r sefydliad dan sylw neu berson penodedig neu berson o fath arbennig. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn pennu sefydliadau o'r fath. Mae'r sefydliadau yn rhai penodedig os ydynt yn cael eu rhestru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac os ydynt hefyd yn cael eu rhestru fel rheolwr unrhyw adeilad a restrir mewn atodlen sy'n ffurfio rhan o'r naill neu'r llall o'r codau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(b).

Gellir cael copi o God Ymarfer y DU/ Cynhadledd Sefydlog Prifathrawon Prifysgolion (Cymru) gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu Universities UK, Woburn House, 20 Tavistock Square, Llundain WC1H 9HQ; e-bost: info@universitiesuk.ac.uk; rhyngrwyd: info@universitiesuk.ac.uk.

Gellir cael copi o God Rhwydwaith Achrediad y DU/Cod Safonau Unipol (Cymru) gan Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; rhyngrwyd: www.wales.gov.uk, neu The National Administrator, National Codes of Standards, 155-157 Woodhouse Lane, Leeds LS2 3ED; e-bost: nationalcode@unipol.leeds.ac.uk neu nationalcode@anuk.org.uk; rhyngrwyd: www.unipol.org.uk neu www.anuk.org.uk/Large Code/.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effeithiau y bydd y Rheoliadau hyn yn ei gael ar gael oddi wrth Y Gyfarwyddiaeth Dai, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad

Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost: housing@wales.gsi.gov.uk; intranet: www.wales.gov.uk.